OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1063 (Cy.112)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*9 Ebrill 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Ebrill 2008*
Yn dod i rym - -	*6 Mai 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, y breiniwyd ynddynt bellach(**1**) y pwerau a roddwyd gan adran 16(1) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny.

Yn unol â'r adran honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny sy'n ymddangos i'r Gweinidogion fod a wnelont â'r Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Mai 2008.

Diwygiadau i Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 3, yng Ngrwp IV o Ran II ac yng Ngrwp IV o Ran III—

(a) yn y golofn gyntaf, o dan "Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*)" yn lle "chwarter" rhodder "thraean"; a

(b) yn yr ail golofn, yn lle'r ffigur gyferbyn â "Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*)" rhodder "5.0%".

(**1**) Yn rhinwedd O.S. 1978/272, O.S. 1999/672 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006; mae'r swyddogaethau bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi, O.S. 1977/1112, ac adran 2 o Ddeddf Amaeth 1986 (p.49); gweler adran 38(1) am ddiffiniad o "*the Minister*".

(**3**) O.S. 2006/2929 (Cy. 264).